

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# Cadwch yn ddiogel y gaeaf hwn

**Blaenoriaeth Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yw eich cadw'n ddiogel.**

Bydd llawer ohonom yn ceisio lleihau'r defnydd o ynni a chadw'n gynnes y gaeaf hwn - ond rydym yn annog pawb i gymryd camau syml i ddiogelu eu hunain rhag tanau damweiniol a gwenwyno carbon monocsid.

I'ch helpu i gadw'n ddiogel, rydym yn cynnig Archwiliadau Diogel ac Iach am ddim i bob preswylydd – cofrestrwch drwy ffonio **0800 169 1234**, tecstiwch **07507303678** neu ewch i'n gwefan.

**Yn y cyfamser, trowch y dudalen am rai awgrymiadau da i gadw yn ddiogel gyda thân y gaeaf hwn...**

Llinell Gymorth Byw Heb Ofn
Live Fear Free Helpline
0808 80 10 800

ATAL AMDDIFFYN YMATEB
PREVENTING PROTECTING RESPONDING

www.tangogleddcymru.llyw.cymru
www.northwalesfire.gov.wales

# Awgrymiadau Da

- Gwiriwch fod unrhyw offer gwresogi yn gweithio'n dda ac edrychwch ar wefan y Swyddfa Diogelwch a Safonau Cynnyrch am unrhyw rybuddion yn ymwneud â'r eitem. (www.gov.uk)
- Gwnewch yn siŵr bod eitemau fflamadwy fel dodrefn a dillad sy'n sychu yn cael eu gosod ymhell oddi wrth wresogyddion a thanau.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio'r tanwydd cywir ar gyfer stofiau llosgi coed a thanau agored er mwyn lleihau'r risg o nwyon gwenwynig, tanau simnai a gwenwyno carbon monocsid.
- Os oes gennych dân agored, gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio gard o'i flaen er mwyn helpu i atal unrhyw ddeunydd rhag cynnau tân yn eich cartref, ac i gadw plant ac anifeiliaid anwes oddi wrtho.
- Peidiwch â phrynu nwyddau trydanol ffug – gall y rhain achosi tanau trydanol.
- Os nad yw'ch larwm mwg yn gweithio a'ch bod wedi gwirio'r batris, trefnwch iddo gael ei newid neu ei drwsio.
- Gwiriwch eich llwybrau dianc, a gwnewch yn siŵr nad oes annibendod ac eitemau fel gwresogyddion cludadwy yn rhwystro'r ffordd allan.
- Defnyddiwch wasanaeth peiriannydd Gas Safe i gynnal a chadw eich boeleri ac offer nwy er mwyn atal gollyngiadau nwy a gwenwyno carbon monocsid.
- Rhaid i landlordiaid drefnu archwiliad diogelwch nwy blynyddol mewn llety rhent.
- Os ydych chi'n berchennog tŷ edrychwch ar wefan eich darparwr ynni am wybodaeth am eu Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth - os ydych chi'n gymwys, yn aml maent yn cynnig gwiriad diogelwch nwy blynyddol am ddim ynghyd â chefnogaeth arall.

**Beth am gynnwys y plant yn y gweithgareddau hyn i'w helpu i ddysgu sut mae cadw'n ddiogel rhag tân.**



Sbarc©



**Allwch chi ddod o hyd i'r holl eiriau yn chwilair diogelwch gaeaf Sbarc?**

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| M | B | C | L | H | F | L | S | P | I | Y | R |
| W | E | T | U | O | D | A | G | J | L | N | A |
| C | F | H | S | B | A | R | C | L | N | P | R |
| T | W | Y | B | T | D | W | F | H | M | O | S |
| E | C | T | U | A | O | M | D | S | G | L | C |
| B | N | A | M | E | T | R | U | I | O | A | D |
| G | L | C | N | B | N | B | M | M | W | G | F |
| H | L | N | P | W | R | T | U | N | Y | W | A |
| C | E | G | I | L | Y | M | O | A | S | R | T |
| U | M | B | C | L | H | L | F | I | A | E | P |
| O | E | I | R | A | U | Y | L | R | W | S | W |
| E | T | P | S | D | G | L | F | B | M | O | R |

**SBARC**
**SIMNAI**
**CANWYLL**
**LARWM**

**MWG**
**EIRA**
**STORM**
**GWRES**